

**Adroddiad Materion yn Codi
ar gyfer Cyngor Cymuned Ysbyty Ifan
Archwiliad ar gyfer y flwyddyn ddaeth i ben 31
Mawrth 2020**

Cyflwyniad

Mae'r materion canlynol wedi cael eu codi i dynnu sylw Cyngor Cymuned Ysbyty Ifanat eitemau. Daeth y materion hyn i sylw BDO LLP yn ystod archwiliad y ffurflen flynyddol ar gyfer y flwyddyn ddaeth i ben 31 Mawrth 2020.

Efallai na fydd archwiliad y ffurflen flynyddol yn datgelu pob gwendid yn y systemau gan ei bod yn bosibl na fydd pob mater wedi dod i sylw'r archwilydd. Oherwydd hyn, efallai nad y materion a godwyd yw'r unig rai sy'n bodoli.

Mae'r materion a restrir isod yn cael eu hesbonio'n fanylach ar y dudalen/y tudalennau sy'n dilyn

Materion a godwyd

- Mae'r Cyngor wedi ateb 'Ydy' mewn camsyniad i'r cwestiwn ynghylch datgelu Cronfeydd Ymddiriedolaeth yn Adran 2 y Ffurflen Flynyddol
 - Gwiriadau Archwiliad Mewnol
 - Cofnodion heb fod ar y wefan
 - Cymeradwyo'r ffurflen flynyddol
-

Mae'r materion canlynol wedi arwain at y ffurflen flynyddol yn cael ei gwneud yn amodol. Maent yn dynodi gwendid yng ngweithdrefnau'r Cyngor ac mae angen i'r Cyngor weithredu ar unwaith mewn perthynas â hwy.

Cofnodion heb fod ar y wefan

Beth yw'r mater?

Nid yw'r cyngor wedi cyhoeddi holl gofnodion cyfarfodydd y cyngor ar ei wefan. Mae rhai ar goll o'r flwyddyn gyfredol a blynyddoedd diweddar.

Pam mae'r mater wedi cael ei godi

Dan a55 Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 rhaid i'r wefan gyhoeddi holl gofnodion y cyngor.

Beth yw'n hargymhelliad i chi?

Rhaid i'r cyngor ddiweddarau'r wefan i gynnwys yr holl gofnodion sydd wedi eu cymeradwyo.

Mae modd cael arweiniad pellach ar y mater hwn o'r ffynhonnell/ffynonellau canlyn

Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013

Mae'r materion canlynol wedi cael eu codi er mwyn helpu'r Cyngor i wella eu rheolaeth fewnol neu eu harferion gwaith. Argymhellir bod y Cyngor yn ystyried y rhain ond nid oes unrhyw rwymedigaeth statudol i weithredu arnynt.

Gwiriadau Archwiliad Mewnol

Beth yw'r mater?

Mae'r Archwilydd Mewnol wedi rhoi 'am' neu 'na' i'r profion canlynol yn Adran 4 yr ystyriwn yn berthnasol i'ch cyngor chi.

Roedd cofrestri asedau a buddsoddiadau yn gyflawn ac yn gywir ac yn cael eu cynnal yn briodol.

Pam mae'r mater wedi cael ei godi

Bydd methu â chynnal y profion hyn yn arwain at wneud archwiliad anghyflawn a gallai'r cyngor fod yn agored i risgiau yn y meysydd hyn.

Beth yw'n hargymhelliad i chi?

Dylai'r profion uchod gael eu cynnal yn y blynyddoedd i ddod gan yr Archwilydd Mewnol. Dylai'r cyngor sicrhau ei f/bod yn darparu adroddiad llawn i'r cyngor er mwyn bod yn siŵr fod yr holl weithgareddau'n cael eu cynnal a'u cofnodi'n briodol.

Mae modd cael arweiniad pellach ar y mater hwn o'r ffynhonnell/ffynonellau canlyn

Governance and Accountability in Local Councils in England and Wales - A Practitioners Guide,
NALC/OVW/SLCC

Mae'r materion canlynol wedi cael eu codi er mwyn helpu'r Cyngor. Argymhellir bod y Cyngor yn gweithredu ar y materion canlynol er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn gweithredu o fewn ei fframwaith statudol.

Mae'r Cyngor wedi ateb 'Ydy' mewn camsyniad i'r cwestiwn ynghylch datgelu Cronfeydd Ymddiriedolaeth yn Adran 2 y Ffurflen Flynyddol

Beth yw'r mater?

Mae'r Cyngor wedi ateb 'Ydy' mewn camsyniad yn Adran 2 y Ffurflen Flynyddol.

Pam mae'r mater wedi cael ei godi

Mae'r datgeliad ar y ffurflen flynyddol yn anghywir, gan nad yw'r cyngor yn unig ymddiriedolwr i unrhyw elusen.

Beth yw'n hargymhelliad i chi?

Dylai'r cyngor wneud yn siŵr ei fod yn ateb 'Amh' yn y dyfodol, gan nad oes gan y cyngor unrhyw gyfrifoldeb mewn perthynas ag elusen.

Mae modd cael arweiniad pellach ar y mater hwn o'r ffynhonnell/ffynonellau canlyn

Amherthnasol

Cymeradwyo'r ffurflen flynyddol

Beth yw'r mater?

Mae'r cyngor wedi nodi'r cyfeirnod cofnodion anghywir am yr un sy'n cymeradwyo'r datganiadau cyfrifo a'r datganiad llywodraethiant blynyddol.

Mae'r cofnodion yn cadarnhau mai dyma oedd y cyfeirnod cofnodion Taflen ariannol

Pam mae'r mater wedi cael ei godi

Nid yw'r ffurflen flynyddol wedi cael ei chwblhau'n gywir yn unol â'r gofynion.

Beth yw'n hargymhelliad i chi?

Rhaid i'r cyngor sicrhau fod pob blwch perthnasol wedi'i lenwi'n gywir cyn ail-gyflwyno'r ffurflen flynyddol i'w harchwilio.

Mae modd cael arweiniad pellach ar y mater hwn o'r ffynhonnell/ffynonellau canlyn

Llywodraethu ac Atebolrwydd ar gyfer Cyngorau Lleol yng Nghymru - Canllawiau i Ymarferwyr, Un Llais Cymru/CCCLL

Ni ddaeth unrhyw faterion eraill i'n sylw.

Dros ac ar ran
BDO LLP

Dyddiad:
